

# Aelodau'r Panel

## Proffil Swydd Aelod o'r Panel

### Trosolwg

Mae'r panel yn gorff ffurfiol o wirfoddolwyr sy'n dod at ei gilydd er mwyn gwneud penderfyniadau ynghylch cyfeiriad y panel yn y dyfodol a dosbarthu arian o Gronfa Buddsoddi Cymunedol Fferm Wynt Coedwig Clocaenog, i sicrhau ei bod yn gronfa sydd wirioneddol yn cael ei harwain gan y gymuned.

Rydym yn gobeithio recriwtio panel sy'n cynrychioli'r gymuned gyfan, felly gall aelodau'r panel fod yn ifanc neu'n hen, yn gweithio, wedi ymddeol neu'n ddi-waith, ac o amrywiaeth eang o gefndiroedd. Y mwyaf cymysg ac amrywiol yw'r panel, y mwyaf cynrychioliadol o'r gymuned leol y mae'n debygol o fod. Rydym yn awyddus i gynnwys pobl sydd gan wybodaeth a dealltwriaeth o'r hyn sydd eisoes yn digwydd yn ardal yn ogystal â phobl â syniadau newydd ac arloesol.

Bydd angen i holl aelodau'r panel fod yn cymryd diddordeb yn y gymuned leol, yn ogystal â bod â gwybodaeth amdani, ac ymrwymo i ddatblygiad cynaliadwy tymor hir yn yr ardal a fydd yn elwa.

Bydd aelodau'r panel yn datgan buddiannau er mwyn sicrhau nad yw aelodau'r panel yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau mewn perthynas â cheisiadau gan unigolion neu grwpiau y mae ganddynt gysylltiad â hwy (yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol).

Mae aelodau panel y gronfa yn cael eu recriwtio a'u dewis gan weinyddwr y Gronfa, sef CGGC, mewn partneriaeth ag RWE.

### Cyfrifoldebau Allweddol

Mae gan bob aelod o'r Panel y cyfrifoldebau canlynol:

- Adolygu ac ystyried ceisiadau grant sy'n cael eu cyflwyno yn unol â'r meini prawf cymhwyso allweddol sydd wedi'u nodi yn y canllawiau a'r pecyn ymgeisio
- Defnyddio gwybodaeth leol ac arbenigedd personol i ddylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau (ee gwybodaeth am yr ymgeisydd, cyngor ar y cyd-destun cyllido, sefydliadau/mentrau tebyg eraill sy'n gweithredu'n lleol)
- Adolygu canllawiau a maen prawf y gronfa a rhoi cyngor ac awgrymiadau mewn trafodaethau yn ymwneud â chyfeiriad y gronfa yn y dyfodol
- Mynychu holl gyfarfodydd y panel sy'n cael eu trefnu ymlaen llaw. Mae'r rhain yn debygol o fod bob deufis/bob chwarter.

Bydd y panel yn cael cefnogaeth a hyfforddiant gan staff CGGC.

## **Aelodau'r Panel**

Cynrychiolaeth o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cynrychiolaeth o Gyngor Sir Ddinbych

Cynrychiolaeth Cadwyn Clwyd

Cynrychiolaeth Cefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy

Aelodau Cymunedol Conwy 37%

Aelodau Cymunedol Sir Ddinbych 63%

## **Sgiliau a Phrofiad**

Entrepreneuriaid Busnes

Datblygu Cymunedol

Anableddau, Gofal cymedithasol a Lles

Pobl ifanc

Teuluoedd a phlant

Yr Henoed

Twristiaeth

Amaethyddiaeth a bwyd amaeth

Di-waith, Creu Swyddi a'r economi

Celfyddydau, Diwylliant a threftadaeth

Gweithgareddau Awyr Agored

Chwaraeon a hamdden

Profiad o fod ar banel grantiau yn y gorffennol

Seilwaith, tai, trafnidiaeth a chyfathrebu

Amwynderau a chyfleusterau cymunedol

Yr Amgylchedd ac Ynni

Yr Iaith Gymraeg